ATODIAD 1

**NODYN CYNGOR AR FUDDIANNAU A**

**THROSGLWYDDIAD ASEDAU CYMUNEDOL**

1.0 Cyflwyniad

1.01 Mae gan Gyngor Sir y Fflint tua 300 o asedau fel canolfannau cymunedol, caeau chwarae a mannau agored. Ym mis Tachwedd 2014 gwahoddwyd cynghorau tref a chymuned yn ogystal â grwpiau cymunedol i fynegi diddordeb mewn cymryd cyfrifoldeb dros yr asedau hyn (Trosglwyddo Asedau Cymunedol - TAC (CAT yn Saesneg). Erbyn mis Hydref 2015 roedd 19 o gynghorau a 24 o grwpiau cymunedol wedi mynegi diddordeb mewn rhedeg 174 o asedau.

1.02 Yr hyn y mae TAC yn ei olygu yw bod naill ai cyngor tref/cymuned neu grŵp cymunedol yn cymryd les ased cymunedol. Mae'n bosibl y bydd trafodaeth yn y cyngor sir lle mae cynghorydd yn bresennol sydd naill ai ar gyngor tref/cymuned neu grŵp cymunedol sy'n cymryd yr ased. Os felly, bydd angen i'r cynghorydd hwnnw/honno ystyried a ddylai ddatgan buddiant/cysylltiad os bydd eu cyngor yn trafod y trosglwyddiad.

1.03 Yn yr un modd, os bydd cynghorydd ar grŵp cymunedol sy'n cymryd ased a bod y trosglwyddiad hwnnw'n cael ei drafod mewn cyngor tref/cymuned (e.e. efallai bod y grŵp cymunedol yn ceisio cymorth ariannol gan y cyngor tref) yna bydd yn rhaid i'r cynghorydd ystyried a ddylai ddatgan cysylltiad.

2.0 Buddiannau/cysylltiadau o dan y Cod Ymarfer

2.01 Mae paragraff 10(2) o'r Cod Ymddygiad (Y Cod) yn gofyn bod Cynghorydd yn datgan buddiant personol 'yn unrhyw ddarn o fusnes eich awdurdod sy'n berthnasol i, neu sy'n debygol o effeithio

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol gyda man busnes neu dir yn ardal yr awdurdod y mae gan y cynghorydd

- gyfranddaliadau o fwy na £25,000 ynddo; neu
- fwy na 1% o gyfanswm y cyfranddaliadau a gyhoeddwyd

(ix) unrhyw awdurdod cyhoeddus, elusen neu gorff wedi'i gyfarwyddo i ddibenion elusennol, clwb preifat, cymdeithas neu sefydliad y mae gan y cynghorydd *swydd reoli* ynddo/ynddi neu y mae'r cynghorydd yn aelod ohono/ohoni.'

2.02 Felly bydd yn rhaid i gynghorydd sir sydd hefyd yn

- gynghorydd tref/cymuned ar gyngor sy'n derbyn trosglwyddiad
- aelod o gorff llywodraethu neu fwrdd ymddiriedolwyr ayyb grŵp cymunedol sy'n derbyn trosglwyddiad

ddatgan buddiant/cysylltiad personol pryd bynnag y bydd trosglwyddiad yn cael ei drafod gan y cyngor sir.

**Enghraifft 1** Mae'r Cynghorydd Freda Jones yn gynghorydd sir, yn gynghorydd cymuned Mynydd Isa ac yn ymddiriedolwr ar fwrdd Ymddiriedolaeth Caeau Chwarae Mynydd Isa. Mae'r ymddiriedolaeth eisiau derbyn trosglwyddiad y caeau chwarae gan y cyngor sir. Mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn gwneud cais i Gyngor Cymuned Mynydd Isa am grant ar gyfer costau yswiriant.

Os caiff y trosglwyddiad ei drafod gan y Cyngor Sir yna mae'n rhaid i'r Cynghorydd Freda Jones ddatgan cysylltiad personol. Felly hefyd os trafodir y cais am grant gan y cyngor cymuned mae'n rhaid iddi ddatgan cysylltiad personol.

2.03 Mae'n rhaid i bob cynghorydd y mae'n ofynnol iddynt ddatgan buddiant/cysylltiad personol wneud hynny pa bryd bynnag y caiff y mater perthnasol ei drafod:

- mewn unrhyw gyfarfod neu bwyllgor y cyngor
- mewn unrhyw gyfarfod gyda swyddogion
- mewn unrhyw ohebiaeth gyda swyddogion/cynghorwyr.

2.04 Wrth ddatgan buddiant/cysylltiad personol mae'n rhaid i gynghorydd ddatgan ei fod yn bersonol a rhoi rheswm dros y *buddiant.* Wedi hynny bydd y cynghorydd yn rhydd i gymryd rhan lawn yn y ddadl, y drafodaeth neu i bleidleisio ar y mater.

2.05 Os bydd buddiant/cysylltiad personol mor arwyddocaol fel y gallai aelod o'r cyhoedd yn rhesymol ddweud ei fod yn debygol o ragfarnu barn y cynghorydd am fuddiant cyhoeddus, yna daw'n fuddiant personol ac yn fuddiant sy'n rhagfarnu. Yn arferol byddai cymryd les ased yn cael ei ystyried yn ddigon arwyddocaol i'r buddiant fod yn bersonol ac yn fuddiant sy'n rhagfarnu.

2.06 Ni all cynghorydd y mae angen iddo ddatgan buddiant personol ac sy'n rhagfarnu aros

- yn yr ystafell yn ystod unrhyw gyfarfod cyngor neu bwyllgor; na bod yn bresennol
- yn unrhyw gyfarfod gyda swyddogion, nac
- ysgrifennu unrhyw ohebiaeth at swyddogion/cynghorwyr am y mater ONI BAI
- bod esemptiad yn berthnasol
- bod ganddo ef/hi oddefeb gan Bwyllgor Safonau'r cyngor sir.

3.00 Esemptiadau a Goddefebau

3.01 Mae esemptiad yn berthnasol yn yr amgylchiadau isod. Er eu bod i'w gweld yn eang iawn **nid ydynt yn berthnasol** os yw'r mater yn gais am unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded, hawl neu gofrestriad:

a. (mewn cyngor sir neu gyngor tref/cymuned) lle penodwyd y cynghorydd i'r corff cymunedol sy'n cymryd y trosglwyddiad gan y cyngor hwnnw
b. (mewn cyngor sir neu gyngor tref/cymuned) lle mae'r grŵp cymunedol sy'n cymryd y trosglwyddiad yn awdurdod cyhoeddus neu'n gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.
c. (mewn cyngor sir) lle mae'r cynghorydd ar y cyngor tref/cymuned sy'n cymryd y trosglwyddiad.
d. (mewn cyngor tref/cymuned) lle mae'r cynghorydd yn aelod o 'gorff perthnasol' e.e. y cyngor sir.
e. (mewn cyngor tref/cymuned) lle mae'r mater yn ymwneud â chais am nawdd ariannol o £500 neu lai

3.02 Os yw esemptiad yn berthnasol mae'n rhaid i'r cynghorydd:

- ddatgan buddiant/cysylltiad personol
- egluro beth yw'r cysylltiad
- cyfeirio at y ffaith fod yr esemptiad yn gwneud y buddiant yn bersonol yn unig.

**Enghraifft 2:** Mae Ymddiriedolaeth Caeau Chwarae Mynydd Isa'n ceisio caniatâd cynllunio i adeiladu adeilad clwb ar y caeau chwarae. Pan gaiff y mater ei ystyried gan Gyngor Cymuned Mynydd Isa, mae'n rhaid i'r Cynghorydd Freda Jones ddatgan buddiant personol ac sy'n rhagfarnu a gadael yr ystafell yn ystod y drafodaeth. Ni all ychwaith ysgrifennu at swyddogion cynllunio yn y cyngor sir na siarad yn y Pwyllgor Cynllunio.

**Enghraifft 3:** Mae Ymddiriedolaeth Caeau Chwarae Mynydd Isa'n gwneud cais i'r Cyngor Sir am grant o £600 ac i Gyngor Cymuned Mynydd Isa am grant o £400. Ni all y Cynghorydd Freda Jones siarad yn y cyngor sir am y grant oherwydd mai dim ond ar lefel cyngor cymuned yr oedd yr esemptiad yn berthnasol. Fodd bynnag, oherwydd yr esemptiad, gall siarad yng Nghyngor Cymuned Mynydd Isa. Serch hynny mae'n rhaid iddi ddatgan buddiant/cysylltiad personol o hyd.

3.03 Gall cynghorydd â buddiant personol ac sy'n rhagfarnu wneud cais i Bwyllgor Safonau'r cyngor sir am oddefeb. Gellir gwneud y cais ar sail y rhesymau canlynol:

- mae gan o leiaf hanner y cynghorwyr ar y cyngor neu'r pwyllgor fuddiant neu gysylltiad
- mae gan o leiaf hanner aelodau'r cabinet fuddiant neu gysylltiad

- byddai cydbwysedd gwleidyddol y cyngor neu'r pwyllgor yn cael ei darfu arno (cyngor sir yn unig)
- pe bai'r aelod yn cymryd rhan, ni fyddai'n niweidio ffydd y cyhoedd
- pan fo'r buddiant yn gyffredin i'r aelod a chyfran sylweddol o'r cyhoedd
- mae gan yr aelod rôl neu arbenigedd penodol
- mae'r mater yn cael ei drafod mewn pwyllgor trosolwg a chraffu ac nid yw buddiant neu gysylltiad yr aelod yn ariannol
- mae'r mater yn ymwneud â sefydliad gwirfoddol nad oes gan yr aelod unrhyw fuddiant arall ynddo ac nid yw'n dymuno pleidleisio

3.04 Mae ffurflen y dylid ei llenwi ar gael gan y Cyngor SIr. Mae'r Pwyllgor Safonau'n cyfarfod ar y dydd Llun cyntaf o bob mis ac efallai y bydd rhywfaint o gynllunio ymlaen llaw yn angenrheidiol. Gall cynghorydd sy'n gwneud cais fynychu'r cyfarfod i egluro eu cais ond nid oes rhaid iddynt wneud hynny.

Am gyngor neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â chlerc eich cyngor tref/cymuned neu'r Swyddog Monitro/Dirprwy Swyddog Monitro.

Gareth Owens
Prif Swyddog (Llywodraethu) a Swyddog Monitro
Monitro. Ffôn: 01352 702344
E-bostgareth.legal@flintshire.gov.uk

Matthew Georgiou
Dirprwy Swyddog
01352 702330
matthew.georgiou@flintshire.gov.uk